# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 20.12.07

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Tomos Evans (Cadeirydd);
Y Cynghorwyr Evie Morgan Jones a Ieuan Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Glynda O'Brien (Swyddog Pwyllgor).

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

| | |
|---|---|
| **Yn cynrychioli'r heddlu:** | Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwydded<br>PC Geraint Jones<br>PC Richard Hughes |
| **Ymgeisydd** : | Mr John Roberts |
| **Cynrychiolydd yr Ymgeisydd:** | Mr Adam Farrer |
| **Gwrthwynebydd:** | Mr Colin Hughes |

**Ymddiheuriad:** Mr Alun Evans

'Roedd y Cynghorydd Dylan Edwards, yr aelod lleol, yn bresennol gyda'r bwriad o gyflwyno sylwadau ond yn wyneb y ffaith nad oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig gwrthwynebodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd iddo gyflwyno sylwadau llafar ar y diwrnod, felly fe adawodd y cyfarfod.

**1. CAIS AM WYRO TRWYDDED GWESTY'R SHIP, Y BALA**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar gais Gwesty'r Ship, Y Bala, i wyro trwydded bresennol i ganiatáu:

(i) newidiadau i'r eiddo yn unol â'r cynlluniau diwygiedig a gyflwynwyd gyda'r cais;
(ii) newid y niferoedd a ganiateir yn yr eiddo i 60 yn y Bar Salŵn, 60 yn Bar y Lolfa ac 20 yn y gardd gwrw
(iii) dangos ffilmiau a chael cerddoriaeth wedi ei recordio tu fewn a thu allan yr eiddo

Nodwyd bod yr ymgynghoriadau perthnasol wedi digwydd a derbyniwyd sylwadau oddi wrth yr Heddlu, Swyddog Iechyd yr Amgylchedd ynghyd â llythyr o wrthwynebiad. Ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth Gyngor Tref Y Bala na'r aelod lleol.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor;
ii. rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor;
iii. gwahoddwyd yr Heddlu i gefnogi eu sylwadau ysgrifenedig a rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ac aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau;
iv. rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ymhelaethu ar ei gais ac i alw ar unrhyw dystion;
v. gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd;
vi. rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd; a

vii. derbyniwyd crynodeb o'r achos gan gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd.

(a) Wrth gyflwyno sylwadau ar ran yr Heddlu, adroddodd Mr Ian Williams fod gan yr Heddlu bryderon ynglŷn â'r cais i ganiatáu cerddoriaeth wedi'i recordio ac arddangos ffilmiau y tu allan i'r eiddo oherwydd niwsans cyhoeddus. Bu iddynt dderbyn cwynion yn y gorffennol ynglŷn â swn yn deillio o'r eiddo ac y byddai caniatáu'r amrywiad fwy na thebyg yn cynyddu'r swn i drigolion lleol ac o'r herwydd yn cynyddu'r nifer o gwynion i'r Heddlu.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod o'r Is-bwyllgor ynglyn â'r nifer o weithiau mae'r Heddlu wedi eu galw i Westy'r Ship, dywedodd y Cwnstabl nad oedd yn cofio pryd oeddynt wedi cael eu galw yno ond nid oedd Gwesty'r Ship yn eithriad, 'roeddynt yn cael eu galw yn achlysurol i phob ty tafarn yn Y Bala.

(b) Rhoddwyd gyfle i'r gwrthwynebydd gyflwyno sylwadau llafar ac fe bwysleisiodd nad oedd yn gwrthwynebu ar sail o fater personol ond yn hytrach y niwsans a greuir o ddefnydd yr eiddo, yn benodol yr ardd gwrw Gwesty'r Ship sydd wedi ei leoli 10 llath o'i eiddo. Fe erfyniodd ar yr Is-bwyllgor i gymryd i ystyriaeth fwynderau trigolion cyfagos oherwydd 'roedd ymddygiad y bobl sy'n mynychu'r ardd gwrw yn annberbyniol. 'Roedd y sefyllfa wedi gwaethygu ers ymestyn oriau agor tafarndai ac yn ogystal 'roedd dyfodiad y ddeddfwriaeth ysmygu mewn mannau cyhoeddus wedi cyfrannu tuag at fwy o ddefnydd o'r ardd gwrw ac o ganlyniad 'roedd y gwrthwynebydd yn gorfod dioddef swn ac aflonyddwch hyd at oriau man y bore ac nad oedd wedi ei gyfyngu i ddiwrnod neilltuol o'r wythnos.

(c) Eglurodd cynrychiolydd yr ymgeisydd bod y ddau ran cyntaf o'r cais yn ymwneud â chywiro camgymeriadau i'r drwydded wreiddiol. 'Roedd yr ymgeisydd yn gofyn am gywiro'r niferoedd a all fynychu'r Gwesty o 75 fel a nodir ar y drwydded wreiddiol i 140.

Yng nghyswllt darpariaeth adloniant yn yr ardd gwrw, esboniwyd bod teledu gyda sgrin plasma ar y wal yn yr ardd gwrw a dymuniad yr ymgeisydd ydoedd dangos chwaraeon o bryd i'w gilydd a phwysleisiodd na fyddai'n defnyddio seinyddion ychwanegol dim ond y rhai oedd yn rhan o'r teledu. 'Roedd yr ymgeisydd yn fwy na pharod i gyfyngu'r oriau ar gyfer darlledu chwaraeon hyd at 8.00 p.m. ac addawodd na fyddai'n defnyddio'r seinyddion ychwanegol. Pwysleisiodd cynrychiolydd yr ymgeisydd mai dim ond un gwrthwynebiad a dderbyniwyd o ystyried bod llawer iawn o dai eraill yng nghyffiniau'r Gwesty.

Mewn ymateb i ymholiad gan swyddog ynglyn â sut y byddid yn rheoli swn, esboniodd yr ymgeisydd nad oedd hyn yn hawdd ond bod ganddo bosteri i fyny ar furiau'r Gwesty yn gofyn i'r cwsmeriaid gadw eu lleisiau i lawr a hefyd byddai'n ceisio cau y drysau fel nad oedd y swn yn cario tu allan i'r Gwesty.

Gofynnwyd i'r partion adael y cyfarfod ag ar ôl ystyriaeth fanwl o'r mater o safbwynt y pedwar egwyddor Deddf Trwyddedu 2003 sef:

1. Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;
2. Diogelwch y Cyhoedd;
3. Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac
4. Amddiffyn plant rhag niwed:

**PENDERFYNWYD: Cymeradwyo i wyro trwydded Gwesty'r Ship, Y Bala, i gynnwys:**

**(i) newidiadau i'r eiddo yn unol â'r cynlluniau diwygiedig a gyflwynwyd gyda'r cais;**
**(ii) newid y niferoedd a ganiateir yn yr eiddo i 60 yn y Bar Salŵn, 60 yn Bar y Lolfa ac 20 yn y gardd gwrw**

**(iii) caniatáu'r cais i chwarae cerddoriaeth tu fewn i'r Gwesty yn unig a chyfyngu defnydd y teledu sgrin plasma sydd wedi ei lleoli yn yr ardd gwrw i ddangos gweithgareddau chwaraeon yn unig hyd at 8.00 p.m. gan gymryd i ystyriaeth effaith swn ac aflonyddwch i drigolion cyfagos a gwneud darpariaeth i leihau hyn cyn belled ag y bo modd.**

**2. <u>CAIS AM DRWYDDED EIDDO – PARLIAMENT HOUSE, DOLGELLAU</u>**

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr Tomos Evans(Cadeirydd); Evie Morgan Jones a Ieuan Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Glynda O'Brien (Swyddog Pwyllgor).

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ymgeiswyr**: Mr Gareth John Kemble

**Cynrychiolydd yr heddlu:** Mr. Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu; PC Geraint Jones a PC Richard Hughes

**Gwrthwynebu:** Mr Wynne G. Hughes, Mr Bernard Lanz a Mr John Rhys Thomas.

**Ymddiheuriadau:** Mr Alun Evans (Swyddog Iechyd Amgylchedd) a Mr Dylan Wyn Evans (Gwrthwynebwr).

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ar gais am Drwydded Eiddo ar gyfer Parliament House, Dolgellau, i ganiatáu cynnal dramau, dangos ffilmiau, chwarae cerddoriaeth byw ac wedi ei recordio, darpariaeth ar gyfer dawnsio, gwerthu alcohol gyda'r eiddo'n gyffredinol yn cau am 23.30. Tynnwyd sylw'r aelodau bod yr ymgeisydd wedi cynnwys yn y cais yr hawl i werthu bwyd poeth hwyr yn y nos (Adran L o'r cais) ond yn dilyn trafodaethau pellach gyda'r Heddlu, 'roedd yn tynnu'r rhan hwn o'r cais yn ôl.

Nododd y Rheolwr Trwyddedu nad oedd gan y Gwasanaeth Tân wrthwynebiad i'r cais ac fe dynnwyd sylw at sylwadau Swyddog Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor yn datgan gwrthwynebiad ar sail:

1. bod Parliament House ynghlwm i dŷ preswyl
2. nad oedd safon ynysu sŵn y wal/to/llawr yn rhannu'r ddau eiddo wedi ei sefydlu
3. rhagwelir y byddai niwsans sŵn yn cael ei greu i drigolion y tŷ preswyl os fyddai adloniant yn cael ei gynnal yn Parliament House dan yr amgylchiadau presennol.

Tynnwyd sylw'r aelodau at lythyr o wrthwynebiad gan Gyngor Tref Dolgellau ynghyd â llythyrau gan bedwar o drigolion cyfagos yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

**(i)** rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor;
**(ii)** rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor;
**(iii)** gwahoddwyd yr Heddlu i gefnogi eu sylwadau ysgrifenedig a rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ac aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau;
**(iv)** rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ymhelaethu ar ei gais ac i alw ar unrhyw dystion;
**(v)** gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd;
**(vi)** rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd; a
**(vii)** derbyniwyd crynodeb o'r achos gan gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd.

(a) Wrth gyflwyno sylwadau ar ran yr Heddlu, adroddodd Mr Ian Williams yn dilyn cytundeb a ddeilliodd o drafodaeth rhwng yr Heddlu a'r ymgeisydd ei barodrwydd i dynnu rhan L yn ymwneud â lluniaeth hwyr y nos o'r cais, nid oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad. Nodwyd bod yr ymgeisydd wedi cytuno y byddai'r eiddo yn aelod o'r cynllun Gwarchod Tafarndai a bydd cynrychiolydd yn mynychu cyfarfodydd y cynllun ac yn cymryd rhan yn holl fentrau'r cynllun. Bydd yr eiddo'n cydymffurfio â holl gyfarwyddiadau Gwarchod Tafarndai, gan gynnwys ufuddhau i Orchmynion Gwahardd mewn perthynas ag unigolion.

(b) Ar ran y gwrthwynebwyr, cafwyd sylwadau gan Mr Bernard Lanz a Mr John Rhys Thomas yn crynhoi y pryderon a fynegwyd yn eu llythyrau, yn arbennig y swn, y sbwriel, a'r aflonyddwch arfaethedig i gwsmeriaid Gwesty'r Ship a thrigolion cyfagos. Mynegodd Mr Thomas bod ei dŷ ef wedi ei gofrestru yn adeilad rhestredig Gradd II ac o'r herwydd yn ei gyfyngu i fedru rhoi ffenestri dwbl addas i liniaru unrhyw swn a fyddai'n deillio o Parliament House. Aeth Mr Thomas ymlaen i ddweud ei fod yn gorfod clirio llanast a adewir o flaen ei eiddo ar hyn o bryd a phe chaniateir y cais rhagwelai y byddai'r llanast yn gwaethygu a byddai angen bin sbwriel ychwanegol rhwng ei eiddo a Parliament House. Pwysleisiodd nad oedd ganddo ef na'r gwrthwynebwyr eraill unrhyw wrthwynebiad i'r eiddo yn ei ffurf bresennol sef yn agored fel bwyty o 9.00 a.m. hyd at 5.00 p.m. ond 'roedd yn pryderu pe caniateir y cais byddai bywydau y trigolion cyfagos yn newid yn gyfan gwbl. Rhagwelai hefyd beryglon iechyd a dioglewch y cyhoedd yn wyneb y ffaith bod y palmant yn gul o flaen yr eiddo a phan fydd pobl yn dod allan i ysmygu byddant yn gorfod sefyll y tu allan, fel sy'n digwydd mewn mannau eraill yn y dref, ac o ganlyniad yn creu rhwystr i fedru cerdded ar hyd y palmant.
Tynnwyd sylw'r aelodau at y ffaith bod cwmni arall wedi ymgeisio am drwydded cyffelyb i'r eiddo ond nad oedd y cais hwnnw wedi llwyddo.

(c) Cyflwynodd yr ymgeisydd ei achos drwy ddatgan bod ganddo ddau fusnes yn ardal Dolgellau, sef rhedeg y caffi yng nghanolfan beicio mynydd Coed y Brenin, Ganllwyd, a rhedeg caffi yn Parliament House, sef yr eiddo a oedd yn destun y cais. Ei fwriad ydoedd ymateb i ddyheadau ei gwsmeriaid drwy ddarparu cyfleusterau iddynt fedru cael mwynhau glasiad o win neu botel o gwrw mewn awyrgylch gwahanol i swn gerddoriaeth megis telyn, gitâr, a.y.b. Nid oedd ganddo fwriad i gynnal adloniant bob dydd o'r wythnos ond pe byddai'r cais yn llwyddo fe fyddai ganddo'r dewis i fedru cynnig adloniant ar achlysuron arbennig megis dydd Gwyl Dewi, a.y.b.

Wrth ymateb i ymholiadau aelodau, cadarnhaodd yr ymgeisydd:

(i) mai'r cynifer a fedrai eistedd yn y caffi ar y llawr gwaelod oedd 27
(ii) nad oedd gan yr eiddo fan penodol y tu allan ar gyfer ysmygwyr a rhagwelai y byddent yn gorfod sefyll y tu allan os ydynt yn dymuno ysmygu.

Gofynnwyd i'r partion adael y cyfarfod ag ar ôl ystyriaeth fanwl o'r mater o safbwynt y pedwar egwyddor Deddf Trwyddedu 2003 sef:

1. Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;
2. Diogelwch y Cyhoedd;
3. Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac
4. Amddiffyn plant rhag niwed:

**Penderfynwyd: Caniatáu cais am Drwydded Eiddo ar gyfer llawr isaf Parliament House, Dolgellau ar gyfer cynnal dramau, dangos ffilmiau, cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, gwerthiant o alcohol rhwng 09.00 awr ac 23.00 awr gyda estyniad i 01.00 ar Nos Galan ynghyd â'r amodau ychwanegol canlynol:**

**(a) sicrhau nad yw swn y gerddoriaeth yn tarfu ar drigolion cyfagos**
**(b) gwahardd gwaredu poteli cyn 08.00 ac ar ôl 20.00 awr.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 1.00 pm.